**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, EBRILL 24ain, 2023**

**PRESENNOL**

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Anwen Jones,
Delyth Algieri (clerc).
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams, Cyng. Alun Morris, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Dylan Jones, Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir)

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth, 2023.

1.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

1.1 **MATERION BAW CWN**

Y Clerc yn cysylltu gyda Mr Simon Billington o'r Adran Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wythnos yma i archebu biniau baw cwn ar gyfer ardal Penrhiw Llanddoged ac ar gyfer Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

**1.2 MAES PARCIO GEGIN WEN, LLANDDOGED**

Diolchodd y Cadeirydd i Cyng Alun Morris am ei waith o dacluso gwyneb y maes parcio Gegin Wen Llanddoged

**1.3 ARWYDD AR GYFER MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Derbyniwyd y clerc e-bost gan y cwmni 'Signsworkshop' gyda chopi o esiampl o'r arwydd ar gyfer y maes parcio Cadair Ifan Goch ynghyd a gwybodaeth o gost am yr arwydd o £675 + TAW. Trafodwyd y gost a phasiwyd i'r clerc holi Haf Jones, Cyngor Conwy yn gyntaf a oes arian grant ar gael tuag at gost yr arwydd. Nododd Cyng. Arwel Jones a'r Cadeirydd Cyng. Jonh Owen y buasent nhw yn fodlon nol yr arwydd a'i osod yno.

**2. CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2022**

Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo y cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth 2022. Rhanwyd mantolen cyfrifon y cyngor i aelodau y cyngor ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfrifon. Bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwiliwr mewnol sef y Cyfrifydd Iona Edwards, Llanrwst.

**3. CYNNAL A CHADW**

3.1 Angen tario'r mannau pasio ar ffordd yr Abbey rhwng Wigfa a Thŷ'r Ysgol, Maenan.

**4. UNRHYW FATER ARALL**

**4.1 OFFER SLEIDIAU AR GYFER Y MAES CHWARAE**

Cais am gael sleidiau ar gyfer maes chwarae Cae Cetyn  a Maes Chwarae Maenan. Y clerc i holi'r Adran Hamdden, Cyngor Conwy.

**4.2 ARWYDD DIM CWN**

Angen arwydd 'Dim Cwn' ar gyfer maes chwarae Maes Chwarae Maenan. Y clerc am chwilio am arwydd ar gyfer  y maes chwarae.

**4.3 YSWIRIANT Y CYNGOR**

Pasiwyd a chadarnhawyd  aelodau y cyngor drwy godi eu dwylo i dalu £347  i BHIB Ltd am yswiriant y Cyngor am y flwyddyn 2023/24.